

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2022

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2022

Rebecca Evans
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
9 Chwefror 2022

RHAN 1: DISGRIFIAD

1 Trosolwg

- 1.1 Mae Gorchymyn Atafaelu Enillion (AEO) yn ffordd i awdurdodau lleol gymryd camau gorfodi ac adennill mewn perthynas â'r dreth gyngor. Mae'n galluogi awdurdod i adennill arian yn uniongyrchol o enillion cyflogai drwy eu cyflogwr er mwyn talu treth gyngor sy'n ddyledus.
- 1.2 Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992 ("Rheoliadau 1992"). Mae'n cynyddu'r trothwyon yn y tablau yn Atodlen 4 sy'n cael eu defnyddio i bennu'r swm a ddidynnir gan yr awdurdodau lleol drwy'r cyflogwr wrth adennill ôl-ddyledion y dreth gyngor.

2 Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Dim.

3 Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 O dan Erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw, cafodd y pŵer i wneud rheoliadau mewn perthynas â Gorchymynion Atafaelu Enillion eu trosglwyddo o'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedyn i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 162 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
- 3.2 Mae adran 14(3) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992"), a pharagraffau 1(1) a 5(2)(e) o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno, yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â Gorchymynion Atafaelu Enillion.
- 3.3 Y rheoliadau cychwynnol a wnaed yn unol â Deddf 1992 oedd Rheoliadau 1992, a oedd yn rhestru yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau y cyfraddau a oedd yn gymwys mewn perthynas â Gorchymynion Atafaelu Enillion. Diwygiwyd y Rheoliadau wedyn yn OS1998/295, gan ddiweddarau'r symiau yn Atodlen 4, a chafodd y rheoliadau eu diwygio wedyn ar gyfer Cymru yn unig yn OS2007/582.
- 3.4 Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

4 Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau 1992 er mwyn cynyddu, yn unol ag Enillion Wythnosol Cyfartalog cyfredol, y ffigurau yn y Rheoliadau hynny sy'n cael eu defnyddio i gyfrifo'r symiau i'w didynnu.
- 4.2 Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2022.

Y cefndir

- 4.3 Pan fydd gorchymyn atebolrwydd wedi'i ganiatáu i awdurdod bilio, caiff yr awdurdod hwnnw gyfarwyddo cyflogwr i adennill treth gyngor sydd heb ei thalu o gyflog cyflogai, gan ddefnyddio Gorchymyn Atafaelu Enillion. Mae'r swm y caiff cyflogwyr ei ddidynnu o gyflog cyflogai o dan Orchymyn o'r fath i'w weld mewn tablau yn Atodlen 4 o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992. Mae'r ganran a ddidynnir yn seiliedig ar lefel enillion net y cyflogai.
- 4.4 Nid yw'r trothwyon enillion a ddefnyddir i bennu'r cyfraddau didynnu ar gyfer talu'r dreth gyngor yn adlewyrchu newidiadau diweddar yng nghostau byw. Cafodd y tablau eu diwygio ddiwethaf yn 2007 – gan Reoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) 2007 – pan gynyddwyd y trothwyon yn unol â'r Mynegai Enillion Cyfartalog. Ym mis Ionawr 2010, disodlwyd y Mynegai Enillion Cyfartalog gan y mesur Enillion Wythnosol Cyfartalog, sef y prif ddangosydd ar gyfer enillion tymor byr.
- 4.5 Er mwyn sicrhau bod y system yn parhau'n deg, mae'r offeryn statudol hwn yn cynyddu'r trothwyon fel bod lefel yr enillion a gaiff ei hystyried at ddibenion y dreth gyngor yn adlewyrchu'r newid gwirioneddol. Mae data'r mesur Enillion Wythnosol Cyfartalog yn dangos bod cynnydd o 41.8% mewn enillion cyfartalog rhwng mis Ebrill 2006 a mis Mawrth 2021. Defnyddiwyd y ffigur hwn wrth gynyddu'r trothwyon enillion cyfartalog.
- 4.6 Bydd cynyddu'r terfynau enillion yn gwarchod talwyr y dreth gyngor sy'n gorfod ildio cyfran uwch o'u hincwm ar hyn o bryd i dalu dyled y dreth gyngor na'r gyfran yr oedd gofyn iddynt eu talu pan gafodd y trothwyon eu cynyddu ddiwethaf.

5 Ymgynghori

- 5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 8 Hydref 2021 a 31 Rhagfyr 2021 yn gofyn barn am y bwriad polisi i gynyddu'r trothwyon enillion ac am sut i fynd ati i'w cynyddu. Roedd hefyd yn gofyn barn am ba mor aml y dylid diweddarau'r trothwyon enillion.
- 5.2 Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru ac fe'i hanfonwyd yn uniongyrchol hefyd at randdeiliaid allweddol, gan gynnwys yr awdurdodau lleol a gwasanaethau cynghori yn y trydydd sector.
- 5.3 Anfonwyd ail ymgynghoriad technegol am yr offeryn drafft at awdurdodau lleol Cymru er mwyn iddynt gael cyflwyno'u sylwadau rhwng 20 Rhagfyr a 10 Ionawr 2022.
- 5.4 Cafwyd cyfanswm o 26 o ymatebion i'r ymgynghoriad oddi wrth amryfal randdeiliaid. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â bwriad Llywodraeth Cymru i gynyddu'r trothwyon enillion ac yn cytuno hefyd ar sut yr oedd yn bwriadu mynd ati i'w cynyddu.

- 5.5 Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y dylid diweddarau'r cyfraddau'n flynyddol fel eu bod yn gyson â threthi eraill, y Mynegai Prisiau Manwerthu a chyfraniadau pensiwn. Roedd eraill o'r farn y byddai cylch adolygu byrrach na phum mlynedd yn feichus i gyflogwyr, a fyddai'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros sicrhau bod y feddalwedd cyflogres yn gyfredol.
- 5.6 Tynnwyd sylw yn yr ymatebion hefyd at bryderon ynglŷn â'r effaith y byddai defnyddio cyfraddau gwahanol rhwng Cymru a Lloegr yn ei chael o ran addasu'r feddalwedd gyflogres a ddefnyddir i wneud y didyniadau.
- 5.7 Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yma:
[Trothwyon incwm ar gyfer Gorchmynion Atafaelu Enillion | LLYW.CYMRU](#)

6 Aseiad Effaith Rheoleiddiol

- 6.1 Ni pharatowyd Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer yr offeryn hwn oherwydd yr unig beth y mae'n ei wneud yw cynyddu'r trothwyon enillion yn unol ag enillion wythnosol cyfartalog. Mae hyn yn gyson â'r polisi yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal aseuadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.